



RHEOLIADAU MYNWENTYDD CYNGOR CYMUNED LLANDWROG.

Mabwysiadwyd: 21^{ain} Mai 2018.

Y Rheoliadau yn yr iaith Gymraeg yw'r casgliad ddiffiniedig ar gyfer unrhyw achos i sefydlu gwir ystyr y Rheoliadau.

Cyflwyniad.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am dair mynwent yng nghymuned Llandwrog :

- (a) Mynwent Bryn'rodyn yn Y Groeslon.
- (b) Mynwent Carmel yng Ngharmel.
- (c) Mynwent Gyhoeddus Llandwrog yn Llandwrog.

Mae'r Cyngor yn ymarfer ddyletswydd gofal er lles y cyhoedd ac eraill oherwydd gwahanol ddeddfwriaethau a'i gyfrifoldebau fel Awdurdod Claddu. Mae'r Rheoliadau â ganlyn ar gyfer ymarefer rheolaeth briodol o'r mynwentydd ac yn gosod trefniadau ar gyfer rheoli risgiau iechyd a diogelwch.

Clerc y Cyngor sydd yn cyflawni'r holl ddyletswyddau gweinyddol am y dair mynwent ac mae'n gofalu am y cofnodion statudol. Gellir gweld y cofnodion drwy drefniant o flaen llaw ar daliad yn unol â ffioedd y Cyngor. Bydd ffi ychwanegol am ddarparu copiau.

Gall y Cyngor adolygu'r Rheoliadau fel y bo'r angen.

Rheolir y mynwentydd yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972 a Gorchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977 yn ogystal ag unrhyw orchymyn â ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Rheoliadau.

1. Rhaid trefnu claddedigaeth gyda'r Clerc drwy gyflwyno Rhybudd Claddu o leiaf tri diwrnod cyn y gladdedigaeth gan gynnwys copi o'r tystysgrif marwolaeth.
2. Ni chaniateir claddu cyn 10 o'r gloch y bore nac ar ôl 3 o'r gloch y prynhawn yn yr Haf a 2 o'r gloch yn y Gaeaf. Ni chaniateir claddu na gwaith gan saer maen mewn mynwent ar y Sul nac ar adeg gwyliau statudol.
3. Mae'n ofynnol pan fo ail agor bedd neu yn achos agor bedd am y tro cyntaf (pan fo'r hawl claddu cyfyngedig wedi ei bwrcasu ymlaen llaw) fod y Rhybudd Claddu i'r Clerc wedi ei gwblhau gan ddeilydd gyfredol yr hawl claddu cyfyngedig berthnasol.
4. Rhaid talu'r holl ffioedd briodol i'r Clerc pan yn cyflwyno Rhybudd Claddu neu gais i osod cofeb a hynny'n unol â ffioedd cyfredol y Cyngor.
 - 4.1 Mewn achos o'r ymadawedig wedi marw o fewn 5 mlynedd ers gadael y gymuned yna bydd y ffi sydd i'r rhai o'r gymuned yn berthnasol.
5. Ni chaniateir gwaith i naddu na thrwsio cofebion y tu fewn i'r fynwent. Bydd rhaid cludo holl deunyddiau a chofebion o'r fynwent wrth baratoi am gladdedigaeth gan sicrhau na ddifrodid beddau neu unrhyw nodwedd arall o'r fynwent.
6. Ni chaniateir i'r cyhoedd osod unrhyw rwystr yn atal mynediad at fedd mewn unrhyw ffordd.
7. Mae hawl claddu cyfyngedig yn rhoi prydles am 75 mlynedd, nid berchenogaeth o dir y bedd. Mae hawl claddu cyfyngedig ar gael ond pan fo angen agor bedd newydd ar gyfer claddedigaeth ac nid yw'r Cyngor yn gwerthu'r hawl ymlaen llaw. Mae bedd i'w agor yn ystod tri diwrnod (gan eithrio dydd Sul) cyn dyddiad y gladdedigaeth.
8. Ond deilydd o hawl claddu cyfyngedig gall gyflwyno cais i'r Cyngor am hawl i godi neu ail osod cofeb ar y bedd berthnasol. Ni fydd y Cyngor yn derbyn cais i osod neu ail osod cofeb o fewn cyfnod o

chwe mis yn dilyn claddedigaeth oedolyn a thri mis yn achos plentyn/baban a gweddillion amlosgedig. Rhaid gwneuthuriad a dyluniad cofeb ynghyd â'r gwaith gosod cydymffurfio â'r gofynion gyfredol gan NAMM. Mae tir claddu gyfredol y mynwentydd o fath ardal lawnt ac ni chaniateir cerbiau gyda'r cofebion yno.

9. Mae pob plot newydd, am hyd at dri claddedigaeth, yn mesur 2.44medr o hyd (neu 8 troedfedd), 1.22medr o lêd (neu 4 troedfedd) a 2.44medr o ddyfnder (neu 8 troedfedd). Rhaid i'r gofeb gydymffurfio â pholisi'r Cyngor ynghylch maint, ffurf a'r dulliau gosod.
10. Ni chaiff dyfnder y pridd yn gorchuddio arch olaf mewn bedd fod llai na 0.6medr (neu 2 droedfedd).
11. Mae cyfrifoldeb am feddrhod (hynny yw; y gofeb, cerbiau a'r nodweddion o fewn y cerbiau) parthed cyflwr a cynnal a chadw, yn disgyn ar y sawl â'r hawl claddu cyfyngedig neu ei d/theulu. Deil y Cyngor yr hawl i gynnal, ar unrhyw adeg, archwiliadau diogelwch o'r cofebion yn y mynwentydd a gall hynny olygu heb gysylltu ymlaen llaw yn uniongyrchol â'r sawl â'r hawl claddu cyfyngedig neu ei d/theulu
12. Bydd unrhyw un sydd yn agor neu gau bedd yn gyfrifol am unrhyw ddifrod â achosir i drydydd parti wrth ymwneud â'r gwaith.
13. Ni fydd y Cyngor yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw ddifrod o fewn mynwent â achosir gan drydydd parti i eiddo'r cyhoedd neu eraill.
14. Ni chaniateir y cyhoedd i balu tir bedd na phlannu arno unrhyw blanhigyn. Ni chaniateir ychwaith nodweddion ar y tir o flaen cofeb ac eithrio bedd plentyn / baban.
15. Ni chaniateir y cyhoedd i ddefnyddio chwynladdwr o fewn mynwent.
16. Ni chaniateir peiriant cloddio mawr o fewn y mynwentydd. Caniateir ond peiriant bychan megis "mini digger".

17. Rhaid i Drefnydd Angladdau sicrhau fod ei ymgwymerwr sydd yn agor a chau beddau yn symud o'r fynwent unrhyw bridd a cherrig yn weddill o'r gwaith i ddarparu bedd - ni chaniateir eu cadw / gadael yn y fynwent. Os na wneir hyn gall y Cyngor wneud y gwaith ac adennill y costau oddi wrth y Trefnydd Angladdau. Tra bydd bedd yn agored rhaid ei orchuddio'n ddigonnol ac effeithiol. Rhaid i'r gwaith agor bedd gydymffurfio â Rheoliadau Adeiladwaith 1961 ac 1966.
18. Cleddir gweddillion amlosgedig mewn plotiau penodol ar eu cyfer neu mewn bedd cyffredin pe dymunir gwneud hynny gan ddeilydd yr hawl claddu cyfyngedig. Mesur plot sydd yn benodol ar gyfer gweddillion amlosgedig yw 0.915medr wrth 0.915medr (llathen sgwâr) gyda dyfnder o 0.6medr (dwy droedfedd) a gall plot dderbyn hyd at bedair cist safonol o ran maint.
19. Ni chaniateir gosod cofeb ar unrhyw fedd heb yn gyntaf ei chymeradwyo yn ffurfiol ac yn ysgrifenedig gan y Cyngor. Bydd rhaid anfon y ffurflen briodol wedi ei chwblhau'n llawn ac yn dangos manylion y gofeb at y Clerc i'w hystyried gan y Cyngor. Rhaid i'r ffurflen gynnwys datganiad fod y y gofeb a'r gosod yn cydymffurfion â gofynion gyfredol gan NAMM. Rhoddir hawl gweithredu i'r Clerc ac mae'n ymgynghori â'r Cadeirydd fel y bo'r angen.
20. Perchenogion y cofebion, hynny yw; y sawl â'r hawl claddu cyfyngedig neu ei d/theulu, sydd â'r cyfrifoldeb i'w cynnal a'u cadw mewn cyflwr diogel. Hysbysir perchenogion (os ydynt yn wybyddus) pan fo angen atgyweirio eu cofebion ac oni atgyweirir hwy o fewn yr amser â osodwyd gan y Cyngor yna fe all y Cyngor ymdrin â hwy yn unol â'r pwerau â roddwyd iddo gan Y Cyfarwyddyd Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977. Gall y Cyngor weithredu mewn modd uniongyrchol ynghylch unrhyw gofeb y mae'n credu sydd yn creu risg iechyd a diogelwch o àrwyddocâd a hynny heb roi rhybudd ffurfiol ymlaen llaw i'r perchenogion.
21. Rhaid i Ymgeisydd gyflogi saer maen sydd yn dderbyniol i'r Cyngor pan mae angen trefnu gwaith yn y fynwent. Deil y Cyngor yr hawl i atal ei ganiatâd i'r gwaith fynd rhagddo pe bo saer maen yr Ymgeisydd yn annerbyniol iddo.

22. Gwaherddir cŵn o'r mynwentydd gan eithrio cŵn tywys.
23. Gwaherddir defnydd o'r mynwentydd fel man i blant chwarae neu fel lleoliad i gynnal chwaraeon. Gwaherddir mynd ar gefn feic o fewn y mynwentydd.
24. Pan leolir bedd newydd o fewn ardal lawnt yna ganiateir ond cofeb 'bedd lawnt' i fynd arno. Caniateir cerbiau ar fedd newydd pan fo'r bedd mewn rhes ble mae cofeb(au) gyda cerbiau eisoes yn bodoli.
25. Mae pob bedd â ddarperir ar gyfer claddedigaeth, ac eithrio bedd plentyn a bedd i weddillion amlogedig, i gynnwys cist o flociau neu gwaith bric yn amgylchynnu'r gofod ble osodir yr arch a bod slabiau concriid dwy fodfedd o drwch ar ben y blociau/gwaith bric cyn dychwelyd y pridd i gwblhau'r gladdedigaeth.

Agor a chau beddau.

26. Cyfrifoldeb Trefnydd Angladdau (a chyflogwyd gan 'y teulu') yw penodi a chyflogi ymgymwrwr addas i agor bedd. Gall y Cyngor ofyn am asesiad risg ffurfiol a datganiad am y dull gweithio gan Drefnydd Angladdau i'w gymeradwyo'n ffurfiol cyn ei fod â'r hawl i gyflawni gwaith agor a chau bedd ym mynwentydd y Cyngor. Gall y Cyngor hefyd ofyn i Drefnydd Angladdau am gopi o bolisi atebolrwydd cyhoeddus ei ymgymwrwr.
27. Rhaid i'r dull gwaith ddiogel sydd dan sylw yn 25 gadarnhau y defnydd o gyfarpar a deunyddiau gan gynnwys 'shoring' sydd am : (a) atal cwmpiad tir wrth gloddio er mwyn diogelwch gweithwyr a'r cyhoedd a (b) i warchod beddau gyfagos rhag aflonyddwch a chofebion rhag ddifrod.
28. Rhaid i Drefnydd Angladdau sicrhau fod rhwystr effeithiol ar draws agoriad bedd yn y cyfnod wedi'r gwaith cloddio hyd at adeg y gladdedigaeth fel nad oes risg iechyd a diogelwch i'r cyhoedd.

29. Rhaid i Drefnydd Angladdau sicrhau fod ei ymgymwrwr sydd yn agor a chau beddau yn cywasgu'r pridd pob tua 0.3medr (neu deuddeg modfedd) o ddyfnder wrth cau'r bedd. Rhaid gosod haean o dywyrch i orchuddio'r pridd a osodwyd yn y bedd i'w gau.

30. Bydd y Cyngor yn monitro gwaith Trefnydd Angladdau ac fe all gweithredu mewn modd sydd yn berthnasol a phriodol pe digwydd fod gweithgareddau Trefnydd Angladdau yn annerbyniol.

Rhan sydd eto i gael ei fabwysiadu :-

Ond cofebion isel gorweddol eu ffurf ar sylfaen concriid safonol sydd ag arysgrif yn gwynebu at i fynny a ganiateir yn rhan newydd o Fynwent Bryn'rodyn.